Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Bodorgan
# Bodorgan
# Ynys Môn
# LL62 5AB

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2011

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol fechan wledig yw Ysgol Bodorgan sy'n darparu addysg ddwyieithog i ddisgyblion 4-11 oed o bentrefi Malltraeth, Hermon a Bethel.

Mae 32 o ddisgyblion llawn amser ar gofrestr yr ysgol, gyda'r mwyafrif ohonynt yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r niferoedd disgyblion wedi bod yn eithaf cyson dros y blynyddoedd diwethaf.

Cymraeg yw'r brif iaith a siaredir yn y cartref gan oddeutu 75% o'r disgyblion, ond disgwylir i bob disgybl fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Derbynnir plant i'r ysgol yn llawn amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae gan yr ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn ac mae eu cyrhaeddiad yn amrywio pan ddechreuant yn yr ysgol. Nid yw ardal yr ysgol yn arbennig o ffyniannus. Mae dau ddeg pump y cant o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol yn rhad ac am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae dau ddeg un y cant o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae gan un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mai 2005. Penodwyd y pennaeth presennol i swydd ym Medi 1994.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl yn 2010-2011 ar gyfer Ysgol Bodorgan yw £5,743 sy'n cymharu gydag uchafswm o £15,158 ac isafswm o £2,685 ar gyfer ysgolion cynradd ym Môn. Mae cyllideb fesul disgybl yr ysgol y pumed allan o'r 52 ysgol gynradd yn y sir pan restrir hwy yn ôl maint, gan gychwyn â'r uchaf.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformad cyfredol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd priodol dros ei gyfnod yn yr ysgol;
- bod disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac mae eu hymddygiad a'u hagweddau tuag at ddysgu yn dda; a
- bod yr athrawon yn darparu ystod o brofiadau dysgu sydd, yn gyffredinol, yn cyfarfod ag anghenion y disgyblion.

Fodd bynnag:

- nid oes digon o weithgareddau gwahaniaethol ar gyfer disgyblion i sicrhau lefel addas o her; a
- nid yw medrau ysgrifennu'r disgyblion yn datblygu'n ddigonol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- fod yr ysgol yn gweithredu fel cymuned drefnus sy'n darparu amgylchedd cynhaliol i hyrwyddo lles a chynnydd disgyblion;
- bod trefniadau priodol yn eu lle mewn perthynas â rheoli perfformiad staff; a
- bod y bartneriaeth â rhieni yn dda.

Fodd bynnag:

- nid oes cyswllt digonol rhwng systemau hunan-arfarnu'r ysgol a bwriadau'r cynllun datblygu ysgol; ac
- ni fu digon o gynnydd ar sail rhai o argymhellion yr arolygiad blaenorol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r ysgol:

A1 godi safonau ysgrifennu, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2;

A2 cryfhau'r trefniadau ar gyfer adnabod anghenion disgyblion unigol ac olrhain eu cynnydd;

A3 cryfhau'r elfennau gwahaniaethol yn yr addysgu i gyfarfod yn well ag anghenion pob disgybl;

A4 sicrhau fod y blaenoriaethau ar gyfer gwella yn deillio o hunan-arfarniad trwyadl o waith yr ysgol;

A5 sicrhau fod yr adborth llafar a'r marcio yn galluogi disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella; a

A6 sicrhau fod y disgyblion yn datblygu ymhellach fel dysgwyr annibynnol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd Blwyddyn 2, yng nghyfnod allweddol 1, ac ar ddiwedd Blwyddyn 6, yng nghyfnod allweddol 2, gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Yng nghyfnod allweddol 1 mae cyflawniad o ran y dangosydd pwnc craidd (DPC) wedi bod yn 100% dros y pedair blynedd diwethaf. Mae'r DPC yn cynrychioli canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi eu cyfuno. Dros yr un cyfnod roedd pob disgybl yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 2, ym mhob pwnc. Roedd y ganran yn cyflawni lefelau uwch yn amrywio o'i gymharu â lefelau cyflawniad ysgolion eraill yn y teulu.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae cyflawniad o ran y DPC yn gyffredinol wedi golygu bod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg, ac yn 2007 a 2008 roedd yr ysgol yn y 25% uchaf. Yn 2010, roedd canran y disgyblion sy'n cyflawni'r DPC yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer teulu'r ysgolion ac am y tair blynedd flaenorol, roedd lefelau cyflawniad yn uwch na'r cyfartaledd. Fodd bynnag, ac eithrio mewn Saesneg yn 2009, roedd canlyniadau yn y pynciau unigol yng nghyfnod allweddol 2 yn 2009 a 2010 yn golygu bod yr ysgol yn y 50% isaf o ysgolion tebyg. Roedd y perfformiad ym mhob pwnc yn 2010 ychydig yn is na chyfartaledd y teulu ac yn amrywio dros y tair blynedd flaenorol. Achlysurol iawn yw cyrhaeddiad ar lefel uwch na'r disgwyl yng nghyfnod allweddol 2.

Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd priodol dros ei gyfnod yn yr ysgol. Mae maint carfannau yn fach a'r gymhareb bechgyn/merched yn amrywiol. O'r herwydd nid yw'n hawdd adnabod tueddiadau penodol wrth gymharu perfformiad bechgyn a merched. Mae plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n briodol yn unol â'u gallu, cyrhaeddiad blaenorol ac anghenion addysgol arbennig.

Yng nghyfnod allweddol 1, mae disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus ar lafar mewn ystod o sefyllfaoedd. Maent yn gwrando'n dda ac yn cyfrannu'n frwd i drafodaeth gan ddefnyddio brawddegau cyflawn. Mae ganddynt afael dda iawn ar eirfa a thermau, megis wrth ddidoli a disgrifio gwrthrychau ac fe wnânt gynnydd da yn y medrau darllen ac ysgrifennu Cymraeg.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cynnig sylwadau yn ddigymell ar lafar, er nad yw'r gallu i ymateb yn fwy estynedig yn datblygu'n ddigonol erbyn diwedd y cyfnod allweddol. Mae ansawdd y mynegiant llafar yn lân. Gall disgyblion ddarllen ar goedd yn ystyrlon a chyda goslef briodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i ysgrifennu yn estynedig i ystod gynyddol o bwrpasau mewn perthynas â'u gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion heb afael flaenorol ar y Gymraeg yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ddefnyddio'r iaith ac ymdopi â'r gwaith.

**Lles: Da**

Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'r angen i fwyta'n iach a manteision gwneud hynny. Mae nifer ohonynt yn cymryd rhan mewn geithgareddau corfforol ac yn elwa o'r cysylltiadau agos a ddatblygwyd â chlybiau chwaraeon lleol megis gymnasteg, nofio a phêl droed. Mae eu dealltwriaeth wedi datblygu wrth iddynt weithio tuag at cam 3 o raglen Ysgolion Iach. Mae mwyafrif y disgyblion yn hyderus ac yn gyfforddus wrth siarad ag oedolion.

Mae pob disgybl yn mwynhau dysgu ac mae cyfradd presenoldeb yr ysgol dros 95% ers tair blynedd. O'i chymharu ag ysgolion tebyg mae'r ysgol yn gyson yn y 25% uchaf o ran presenoldeb. Mae ymddygiad y plant yn dda ac maent yn cyfranogi'n llawn mewn dysgu. Mae'r berthynas dda sydd rhyngddynt a'i gilydd, ac ag oedolion, yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd eu gwaith. Mae pob plentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut i gael cymorth os nad ydynt yn hapus.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac mae eu hymddygiad a'u hagweddau tuag at ddysgu yn dda. Mae y mwyafrif yn cyfrannu yn dda at weithgareddau llafar a gwaith trafod grŵp ond mae lle i ddatblygu hyn ymhellach yng nghyfnod allweddol 2. Cynhelir cyfarfodydd Cyngor Ysgol yn rheolaidd ac mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn dangos peth dealltwriaeth o'u rôl a'u cyfrifoldebau. Nid yw rôl weithredol y disgyblion mewn prosesau ethol a chyfrifoldeb, ac mewn gwneud penderfyniadau er mwyn datblygu sgiliau arwain, trefnu, penderfynu a chysylltu, heb eu datblygu'n ddigonol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r athrawon yn darparu ystod o brofiadau dysgu sydd, yn gyffredinol, yn cyfarfod ag anghenion y disgyblion. Mae'r ysgol yn cyfarfod â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol ac mae cynlluniau'r ysgol ar gyfer ymestyn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n briodol. Sefydlwyd ardaloedd addas i'r Cyfnod Sylfaen oddi mewn i'r dosbarth. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol eto wedi llwyddo i gyflawni ei chynlluniau ar gyfer datblygu'r ardal allanol.

Caiff y disgyblion gyfleoedd da ar draws yr ysgol i ddatblygu eu medrau gwrando a llafar. Fodd bynnag, mae diffyg cyfleoedd digonol i ysgrifennu yn estynedig mewn amrywiaeth o ffurfiau, ac mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, yn llesteirio datblygiad medrau perthnasol y disgyblion erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Nid yw'r cynllunio ar gyfer medrau yn gyffredinol yn ddigon penodol ynglŷn â pha fedrau sydd i'w datblygu dros gyfnod o amser. Mae'r ystafell gyfrifiaduron bwrpasol yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r disgyblion. Mae'r ystod o ymwelwyr, a'r ymweliadau a drefnir ar gyfer y disgyblion, yn cefnogi ac yn cyfoethogi eu profiadau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn briodol ac, yn gyffredinol, yn llwyddo i osod seiliau cadarn ar gyfer datblygu medrau iaith y disgyblion. Mae'r dimensiwn Cymreig yn nodwedd gref o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae profiadau fel yr astudiaeth o Eglwys Llangadwaladr yn meithrin ymwybyddiaeth disgyblion o'r ardal leol ddoe a

heddiw ac o chwedloniaeth, diwylliant a chrefydd Cymru. Mae disgyblion yn dysgu hefyd am waith cyfansoddwyr Cymreig fel Karl Jenkins, Grace Williams a Gareth Glyn.

Nid yw darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi datblygu'n ddigonol ar draws yr ysgol.

**Addysgu: Digonol**

Dengys athrawon ac oedolion eraill wybodaeth bynciol addas ac maent yn sefydlu perthynas dda gyda phob un o'r disgyblion. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n dda ac fe reolir ymddygiad yn effeithiol. Defnyddia'r staff fodelau iaith da sy'n hybu medrau cyfathrebu'r disgyblion. Mae gwaith cynllunio'r ysgol yn adnabod cyfleoedd i wahaniaethu. Fodd bynnag, nid oes bob amser amrywiaeth digonol o weithgareddau gwahaniaethol ar gyfer disgyblion, gan gynnwys rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion mwy abl a thalentog, i sicrhau lefel addas o her. Mae tuedd hefyd i nifer o weithgareddau'r disgyblion fod yn or-ddibynnol ar gyfarwyddyd oedolion sy'n llesteirio datblygiad y plant fel dysgwyr annibynnol.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer marcio a darparu adborth llafar ac ysgrifenedig i ddisgyblion yn anghyson ar draws yr ysgol. Yn gyffredinol, nid yw'r trefniadau yn darparu cymorth digonol i alluogi disgyblion i wybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Gosodir targedau gwella ar gyfer disgyblion unigol. Fodd bynnag, nid ydynt yn ddigon penodol i alluogi'r disgyblion i fesur eu cynnydd dros amser. Mae trefn yr ysgol ar gyfer dod i farn ar lefelau cyrhaeddiad ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn dda ac mae'r trefniadau ar gyfer cymedroli'r asesiad athro ar ddiwedd Blwyddyn 6, drwy gydweithio â'r ysgol uwchradd, yn effeithiol. Gwneir peth defnydd o asesiadau safonol i asesu datblygiad darllen disgyblion. Fodd bynnag, nid yw trefniadau asesu'r ysgol yn darparu gwybodaeth ddigonol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion dros amser ac adnabod anghenion disgyblion ar draws yr ystod gallu er mwyn eu targedu yn effeithiol.

Mae ansawdd yr adroddiadau i rieni a gofalwyr ar gynnydd eu plant yn dda a darperir cyfleoedd priodol i ymateb iddynt.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau ymarferol yr ysgol ar gyfer cefnogi iechyd a lles disgyblion yn dda. Darperir dewis iach o fwyd yn ddyddiol ac mae anogaeth i sicrhau fod byrbrydau dyddiol y disgyblion yn cynnwys dewisiadau iach. Darperir ystod dda o gyfleoedd i'r plant ymarfer yn gorfforol ac mae ymrwymiad yr ysgol i flaengaredd megis Campau'r Ddraig a'r cynllun Ysgol Iach yn cyfoethogi'r ddarpariaeth.

Mae'r bartneriaeth effeithiol gyda'r gwasanaeth heddlu cymunedol yn sicrhau bod gwybodaeth am ddiogelwch personol, gan gynnwys diogelwch ar y we, yn cael ei rhannu'n briodol â'r plant. Cyflawnir asesiadau risg addas ar gyfer agweddau perthnasol o waith yr ysgol ac fe ymatebir ar y diwrnod cyntaf i unrhyw absenoldeb ble nad yw'r ysgol yn ymwybodol o'r rheswm. Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n dda o fewn eu cymuned leol drwy weithgareddau megis gwasanaethau, cefnogi eisteddfodau ac ymweliadau â chartrefi'r henoed.

Mae gan yr ysgol bolisi amddiffyn plant priodol a gweithdrefnau addas ar gyfer diogelu.

Mae'r ysgol yn adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar trwy drafodaethau staff. Cynhelir cysylltiad agos â rhieni wrth lunio a gwerthuso targedau ar gyfer gwella yn y cynlluniau addysgol unigol ac fe rennir arweiniad â hwy ar sut y gallent gefnogi eu plentyn. Gwneir defnydd da o gymorthyddion dysgu er mwyn cefnogi grwpiau o blant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn hybu ethos gynhwysol ac mae'r ystod briodol o bolisiau a gweithdrefnau yn eu lle i hyrwyddo cydraddoldeb a hawl gyfartal i'r cwricwlwm. Caiff cefndir disgyblion ei werthfawrogi ac mae gweithdrefnau i atal ymddygiad gormesol, megis bwlio, yn effeithiol iawn.

Mae rhan helaeth yr adeiladau bellach dros gan mlwydd oed. Serch hynny mae eu cyflwr cyffredinol yn dda ac mae'r gwaith a wnaed yn ddiweddar i ddarparu toiledau newydd wedi gwella'r ddarpariaeth yn sylweddol. Mae'r safle yn cynnwys buarth a chae chwarae sylweddol. Gwneir defnydd effeithiol o ofod mewnol yr ysgol ac mae'r ardaloedd dysgu yn symbylus a lliwgar. Defnyddir y neuadd yn bur helaeth i gyfoethogi ansawdd darpariaeth mewn meysydd megis addysg gorfforol a cherdd ac mae'r disgyblion yn elwa o'r offer technoleg gwybodaeth yn yr uned gyfrifiaduron.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae'r ysgol yn gweithredu fel cymuned drefnus sy'n darparu amgylchedd cynhaliol i hyrwyddo lles a chynnydd disgyblion.

Mae trefniadau priodol yn eu lle mewn perthynas â rheoli perfformiad staff, sy'n cynnwys y cynorthwywyr dosbarth. Mae rhestr gryno o amcanion wedi eu pennu mewn perthynas â datblygiad yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys bwriadau priodol i wella agweddau ar safonau llythrennedd. Gwna'r ysgol ddefnydd o ddadansoddiadau data i fesur perfformiad yr ysgol, er nad oes digon o ddefnydd o gymariaethau ag ysgolion tebyg i nodi agweddau lle mae angen gwelliant. Mae gan y pennaeth faich trwm o gyfrifoldebau cwricwlaidd traws-ysgol. O ganlyniad, ni fu digon o effaith hyd yma o ran gwella rhai agweddau ar gyflawniadau disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn gefnogol i'r ysgol. Mae aelodau o'r corff wedi ymweld â'r ysgol yn ystod y dydd ar sawl achlysur ac wedi cael cyfleoedd i arsylwi mewn dosbarthiadau. Fodd bynnag, nid oes gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth ddigonol o agweddau ar yr ysgol lle mae angen gwelliant i weithredu'n briodol fel cyfaill beirniadol. Yn benodol, nid yw'r corff llywodraethol yn gwybod digon am sut mae perfformiad yr ysgol yn cymharu ag ysgolion tebyg.

Mae gwaith cychwynnol wedi ei gyflawni mewn perthynas ag agweddau fel cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ac asesu ar gyfer dysgu. Hyd yma, nid yw hyn wedi cael digon o effaith ar ansawdd y ddarpariaeth a phrofiadau disgyblion.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae rhaglen dair blynedd briodol wedi ei llunio ar gyfer arfanu ystod da o agweddau ysgol-gyfan a phynciau. Mae trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer arsylwi gwersi, sy'n cynnwys cadw cofnodion ffurfiol o'r prif bwyntiau. Er bod y sylwadau yn arfarnol, nid ydynt yn gwneud digon i fanylu ar agweddau i'w gwella, yn enwedig mewn perthynas â chyflanwiadau'r disgyblion. Nid yw'r trefniadau monitro'n rhoi sylw digonol i ystod y profiadau dysgu i sicrhau cynnydd ar daws yr ysgol, yn enwedig mewn perthynas â medrau. Mae trefniadau priodol ar gyfer gwrando'n rheolaidd ar lais disgyblion a rhieni.

Mae'r cynllun datblygu ysgol ar gyfer y tair blynedd 2010-2013 yn ddogfen gryno sy'n nodi amcanion a chamau gweithredu priodol ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Mae terfynau amser clir wedi eu pennu, ynghyd â rhai dangosyddion meintiol i hwyluso mesur effaith. Fodd bynnag, nid oes cyswllt digonol rhwng systemau hunan-arfarnu'r ysgol a bwriadau'r cynllun datblygu ysgol.

Mae adroddiad hunan arfarnu diweddaraf yr ysgol yn cynnig arfarniadau ar ystod eang o agweddau. Fodd bynnag, nid yw'r hunan arfarniad yn nodi agweddau lle mae angen gwelliant. Mewn mannau mae canfyddiadau'r hunan-arfarniad yn tueddu ar fod yn hael ac heb fod wedi eu seilio'n ddigonol ar dystiolaeth benodol.

Er y bu rhai datblygiadau buddiol, ni fu digon o gynnydd ar sail rhai o argymhellion yr arolygiad blaenorol. Mae hyn yn enwedig mewn perthynas â gwella safonau ysgifennu. Araf, ar y cyfan, fu'r cynnydd yn datblygu trefniadau hunan arfarnu'r ysgol.

Mae cysylltiadau ag ysgolion eraill yn lleol wedi arwain at ddatblygu agweddau ar y ddarpariaeth ac ar reolaeth. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau gan y pennaeth i arsylwi mewn dosbarthiadau yn Ysgol Uwchradd Llangefni. Mae'r cyswllt helaeth ag Ysgol Aberffraw wedi cynnwys cynorthwyo â threfniadau hunan-arfarnu a rheoli perfformiad yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Sefydlwyd perthynas dda rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r rhieni yn cefnogi'r ysgol yn dda. Mae holiaduron rheolaidd i geisio barn rhieni am agweddau ar fywyd a gwaith yr ysgol, gyda pharodrwydd i weithredu ar sail unrhyw faterion sy'n codi. Mae defnydd helaeth o rieni a ffrindiau i gynorthwyo â digwyddiadau fel dathlu canmlwyddiant ysgol, clybiau darllen a brecwast, ynghyd â phrosiectau celf.

Bu'r ysgol yn cydweithio ag ysgolion y dalgylch ac ysgol Uwchradd Llangefni mewn perthynas â lefelu enghreifftiau o waith disgyblion. Mae'r pennaeth wedi manteisio ar gyfleoedd i ymweld â dosbarthiadau mewn sawl pwnc yn Ysgol Uwchradd Llangefni. Mae'r bartneriaeth gref rhwng yr ysgol ag ysgol gyfagos Aberffraw yn hybu blaenoriaethau gwelliant.

Mae’r ysgol yn gweithio’n dda gydag asiantaethau fel yr heddlu i hyrwyddo lles a diogelwch disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Yn gyffredinol fe wneir defnydd priodol o amser a phrofiad athrawon a chymorthyddion. Mae’r ysgol wedi ei staffio’n briodol i addysgu’r cwricwlwm, ac mae cyfraniad y cymorthyddion dysgu yn y ddau ddosbarth, ac i ddarparu elfennau arbenigol megis cerdd, yn effeithiol. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn adnabod anghenion datblygu’r staff, ac mae’r ddarpariaeth ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu yn addas. Caiff adeiladau’r ysgol eu cynnal i safon uchel ac mae ystod ac ansawdd yr adnoddau dysgu yn dda. Caiff adnoddau ariannol eu dyrannu’n briodol yn erbyn y blaenoriaethau y mae’r ysgol wedi eu hadnabod.

Yng nghyd-destun y deilliannau y mae’r ysgol yn sicrhau ar gyfer disgyblion mae’r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd 14 o'r holiaduron yn ôl ac mae pob un ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol. Dywed rhieni fod eu plant yn teimlo'n ddiogel ynddi. Mae pob un hefyd yn credu fod ymddygiad y disgyblion yn dda, fod y disgyblion yn cael eu parchu a'u trin yn deg ac yn datblygu i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Mae pob rhiant yn teimlo fod yr addysgu yn y dosbarthiadau ac ymddygiad y plant yn dda ac maent yn teimlo fod eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. Mae pob rhiant hefyd yn dweud fod eu plant yn hoffi'r ysgol. Mae pob rhiant o'r farn fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda neu yn dda iawn.

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd pob un o ddysgwyr cyfnod allweddol 2 yr holiadur a siaradodd y tîm â disgyblion ar draws yr ysgol yn ystod yr arolygiad. Mae pob un yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn ymdrin â bwlio'n dda. Mae pob disgybl yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw os ydynt yn poeni neu os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Mae pob un ohonynt hefyd o'r farn bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae pob disgybl yn teimlo fod eu gwaith cartref yn eu cynorthwyo i ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol.

# Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Iwan Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Iolo Dafydd | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Delyth Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Robin Griffith | Enwebai’r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |